This document is also available in English

**CYNNWYS**

**ADRAN 3**


**3.** **Cael Gwybodaeth a Chymryd Rhan**

3.1 Cael Gwybodaeth
3.2 Cymryd Rhan
3.3 Cymryd Rhan – Aelodau

**ADRAN 3 - CAEL GWYBODAETH A CHYMRYD RHAN**

## 3.1 <u>Cael Gwybodaeth</u>

3.1.1. Gwybodaeth sydd ar gael i Aelodau'r Cyhoedd

(a) Pan fydd cyfarfodydd y Cyrff Aelod yn cael eu Cynnal

Mae rhaglen o gyfarfodydd ar gael trwy gysylltu â'r Cyngor yn uniongyrchol neu drwy'r wefan.

(b) Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol

O'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, gellir gweld pa benderfyniadau fydd yn cael eu gwneud gan y Cabinet neu'r Cyngor a pha faterion y bydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'n eu hystyried a phryd y bydd y materion hyn yn cael eu trafod.

(c) Gwybodaeth sydd ar gael Cyn Cyfarfod

3 diwrnod clir cyn cyfarfod, bydd y rhaglen ac unrhyw adroddiad sy'n debygol o gael ei drafod ar gael i'w harchwilio yn swyddfeydd y Cyngor ac ar y wefan. Os yw eitem yn cael ei hychwanegu at y rhaglen yn ddiweddarach, bydd y rhaglen ddiwygiedig ar gael i'w harchwilio o'r amser pan fydd yr eitem yn cael ei hychwanegu at y rhaglen a bydd unrhyw adroddiad ar gael i'r cyhoedd cyn gynted ag y bydd ar gael ac yn cael ei anfon at Gynghorwyr.

(d) Gwybodaeth sydd ar gael mewn Cyfarfod

Bydd y Cyngor yn sicrhau bod nifer rhesymol o gopïau o'r Rhaglen a'r Adroddiadau ar gyfer y cyfarfod ar gael i aelodau'r cyhoedd sy'n bresennol mewn cyfarfod (ac eithrio yn ystod unrhyw ran o gyfarfod y mae'r cyhoedd yn cael eu gwahardd).

(e) Gwybodaeth sydd ar gael ar ôl Cyfarfod

Am gyfnod o chwe blynedd bydd y rhaglen, adroddiadau a chofnodion y cyfarfod ar gael i'w harchwilio. Bydd y papurau cefndir yn parhau ar gael i'w harchwilio am gyfnod o bedair blynedd.

(f) Cyfrifon y Cyngor

Gall y cyhoedd archwilio cyfrifon y Cyngor a chyflwyno eu safbwyntiau i'r archwiliwr allanol (adran 29 a 30 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004). O dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, bydd y cyfrifon ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd am ugain (20) diwrnod ar ôl y dyddiad a benodir gan yr archwiliwr.

Ni fydd gwybodaeth sy'n gyfrinachol neu wedi'i heithrio (fel y diffinnir ym Adran 15 yn cael ei datgelu i'r cyhoedd ar unrhyw adeg.

3.1.2 Gwybodaeth sydd ar gael i Aelodau'r Cyngor

a) Gall Aelodau weld unrhyw wybodaeth sydd ar gael i aelod o'r cyhoedd.

b) Yn ogystal, gall Aelod weld unrhyw wybodaeth y mae angen iddo ei wybod er mwyn cyflawni ei rôl fel Aelod o'r Cyngor (a elwir hefyd yn "angen gwybod"). Ni fydd Aelod yn gwneud gwybodaeth sy'n gyfrinachol neu'n eithriedig (fel y diffinnir yn Adran 15) yn gyhoeddus heb ganiatâd y Cyngor nac yn datgelu gwybodaeth a roddir yn gyfrinachol i unrhyw un ar wahân i Gynghorydd neu berson(au) neu sefydliad(au) â hawl i'r wybodaeth.

3.1.3 Aelodau Pwyllgor Trosolwg a Chraffu

Gall Aelod o Bwyllgor Trosolwg a Chraffu hefyd weld unrhyw ddogfen sy'n cynnwys deunydd sy'n ymwneud â:

a) unrhyw fusnes a drafodwyd mewn cyfarfod o'r Cabinet;

b) unrhyw benderfyniad a wnaed gan Aelod unigol o'r Cabinet.

Nid oes gan Aelod o Bwyllgor Trosolwg a Chraffu hawl i dderbyn:

c) unrhyw ddogfen ar ffurf drafft;

d) unrhyw ran o ddogfen sy'n cynnwys gwybodaeth gyfrinachol neu wedi'i heithrio oni bai bod y wybodaeth yn berthnasol i gam gweithredu neu benderfyniad y maent yn ei adolygu neu ei graffu neu'n bwriadu ei graffu ac sy'n rhan o Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor.

3.1.4 Gwybodaeth sydd ar gael i Swyddogion

Gall y Swyddog Monitro, Swyddog Adran 151 a'r Prif Weithredwr weld unrhyw bapurau neu gofnodion sy'n cael eu cadw gan unrhyw ran o'r Cyngor neu ei swyddogion. Gall Swyddogion eraill weld unrhyw wybodaeth a gedwir gan y Cyngor ar yr amod:

a) bod angen iddynt weld y wybodaeth i wneud eu gwaith; a

b) bod gwybodaeth yn cael ei phrosesu yn gyfreithlon yn unol â'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data.

## 3.2 Cymryd Rhan

3.2.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor annog pobl leol i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau gan y Cyngor. Gweler Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd y Cyngor i gael rhagor o wybodaeth.

3.2.1 Aelodau'r Cyhoedd

Gall aelodau o'r cyhoedd gymryd rhan yn y ffyrdd canlynol:

a) Pleidleisio dros Gynghorwyr

Os ydynt dros 16 oed ac wedi cofrestru fel etholwr lleol gyda'r Cyngor.

b) Awgrymu Eitemau Busnes ar gyfer Cyfarfodydd

Mae Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'n croesawu awgrymiadau ar gyfer testunau i'w hadolygu a byddant yn ystyried materion sy'n cael eu cyflwyno gan unrhyw un sy'n byw, yn gweithio neu'n astudio ym Mwrdeistref Sirol Conwy.

Gellir gwneud hyn yn ysgrifenedig drwy ysgrifennu at Swyddog Cefnogi Craffu'r Cyngor neu drwy lenwi ffurflen awgrymu testun Trosolwg a Chraffu ar wefan y Cyngor.

I gymhwyso, mae'n rhaid i geisiadau:

- effeithio ar grŵp neu gymuned o bobl (ni fydd craffu'n ystyried cwynion gwasanaeth unigol fel arfer).
- ymwneud â gwasanaeth, digwyddiad neu fater y mae gan y Cyngor gysylltiad sylweddol â'r mater
- ni ddylai fod yn fater y mae'r pwyllgor craffu wedi'i ystyried yn y 12 mis diwethaf
- ni ddylai fod yn fater y mae Pwyllgor arall o fewn y Cyngor yn ei ystyried (e.e. materion cynllunio) oni bai bod y mater yn ymwneud â phroses gwneud penderfyniadau'r Cyngor.

c) Cyflwyno Deiseb

Gall aelod o'r cyhoedd godi mater gyda'r Cyngor drwy gyflwyno deiseb yn unol â Chynllun Deisebau'r Cyngor.

d) Cymryd Rhan mewn Cyfarfodydd

Gall aelodau o'r cyhoedd fynychu a siarad mewn unrhyw gyfarfod y mae'r Cyngor wedi penderfynu y dylai gynnwys cyfranogiad gan aelodau o'r cyhoedd.

Mae'r rheolau ynghylch pryd y gallwch siarad ac am ba mor hir yn cael eu cynnwys yn Adran 7 - Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu & Adran 20 - Protocol Cynllunio .

e) Safbwyntiau'r Cyhoedd

O dan y trefniadau a roddwyd ar waith gan y Cyngor o dan adran 62 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, gall aelodau'r cyhoedd ddwyn i sylw'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol eu barn ar unrhyw fater dan ystyriaeth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol. Mae'n rhaid i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol ystyried unrhyw safbwyntiau sy'n cael eu cyflwyno iddynt o dan y trefniadau hyn os yn briodol.

f) Pryd mae Cyfarfodydd yn Agored i'r Cyhoedd?

Bydd y cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd lle bo hynny'n bosibl. Rhaid i'r cyhoedd gael eu heithrio o gyfarfodydd pryd bynnag y mae'n debygol y bydd gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei datgelu. Gall y cyhoedd gael eu heithrio o gyfarfodydd pryd bynnag y mae'n debygol y bydd gwybodaeth sydd wedi'i heithrio'n cael ei datgelu. (Gweler Adran 15.9 **Error! Reference source not found.**i gael diffiniad o wybodaeth eithriedig ac Adran 15.11 ar gyfer diffiniad o fudd y cyhoedd.)

g) Gwneud Sylwadau/Cwynion

Gall aelod o'r cyhoedd roi sylwadau neu gwyno am wasanaethau'r Cyngor trwy:

i. gysylltu â'u Cynghorydd lleol;
ii. gysylltu â'r Aelod o'r Cabinet sy'n gyfrifol am y gwasanaeth;
iii. gysylltu â'r Swyddog sy'n gyfrifol am ddarparu'r gwasanaeth neu ei reolwr;
iv. ddefnyddio gweithdrefn gwynion y Cyngor;
v. gysylltu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn 1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed, CF35 5LJ. Rhif Ffôn: 0300 790 0203 neu drwy'r wefan https://www.ombwdsmon.cymru.

Gall sylwadau neu gwynion gael eu gwneud am Swyddog neu Aelod drwy:

vi. Swyddog
Cysylltu â'r Swyddog neu Reolwr y Swyddog.
vii. Aelodau
Os yw'r gŵyn yn erbyn Aelod, yna dylai'r gŵyn gael ei chyfeirio at y Swyddog Monitro neu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (manylion cyswllt uchod).

## 3.3 Cymryd Rhan – Aelodau

Gall aelodau gymryd rhan trwy:

### 3.3.1 Awgrymu Eitemau Busnes ar gyfer Rhaglen y Cyngor a /neu'r Cabinet

Fel Aelod y Cyngor, mae gennych yr un hawliau ag aelodau o'r cyhoedd. Yn ogystal â'r hawliau hyn bydd gennych hefyd yr hawliau canlynol:

(a) Gall unrhyw Aelod gyflwyno Rhybudd o Gynnig i'r Cyngor (Adran 4) a gofyn cwestiynau hefyd (Adran 4)

(b) Gall unrhyw Aelod o'r Cyngor ofyn am eitem i'w hystyried ar Raglen y Cabinet. Bydd yr eitem yn cael ei hystyried yng nghyfarfod nesaf y Cabinet. Mae Adran 5 yn cyflwyno rhagor o wybodaeth ar y mater.

3.3.2 Cymryd rhan mewn Cyfarfodydd

Mae hawl gan Aelodau'r Cyngor i fynychu unrhyw gyfarfod ffurfiol o’r Cyngor, ei bwyllgorau neu is-bwyllgorau neu'r Cabinet.

(a) Gall Aelodau'r Cyngor fod yn bresennol a siarad mewn unrhyw gyfarfodydd lle maent yn Aelod o’r corff hwnnw. Lle nad ydynt yn Aelod o'r corff hwnnw, mae eu presenoldeb a'u hawl i siarad yn ôl disgresiwn Cadeirydd y corff.

(b) Mae gan aelodau o'r Cabinet rôl arbennig i'w chwarae o fewn y Cyngor. Mae ganddynt hawl i arfer unrhyw Swyddogaeth y Cabinet ar yr amod bod y Swyddogaeth yn y Cabinet wedi’i dirprwyo iddynt gan Arweinydd y Cyngor.

3.3.3 Sylwadau a Chwynion

(a) Gall aelodau wneud sylwadau, yn amodol ar gyfyngiadau yn y Cod Ymddygiad i Aelodau (Adran 19) ar unrhyw agwedd ar fusnes y Cyngor trwy:

(i) siarad â Swyddogion;
(ii) siarad â'r Arweinydd neu'r Aelod o'r Cabinet;
(iii) siarad â Chadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.

(b) Os yw Aelod yn dymuno cwyno am:

(i) Swyddog

Gall y weithdrefn a nodir yn y Protocol ar Gysylltiadau Aelod/ Swyddog gael eu defnyddio (Adran 22).

(ii) Aelod

Gellir dilyn y weithdrefn a nodir yn Atodiad 1 i Adran 19.